
# Adrodd Tryloyw ar Incwm a Gwariant

**Sut mae'r Brifysgol yn cael ei hariannu?**

Mae'r Brifysgol yn cael ei hariannu drwy ystod eang o ffynonellau. Daw'r rhan fwyaf o'n cyllid drwy'r Ffioedd Dysgu, sy'n cyfrannu tua 48% o'n hincwm a'n Grantiau Ymchwil, sy'n cyfrannu 16%. Derbyniwn hefyd arian ar ffurf grantiau gan ein Cyngor Cyllido a chyrff cyhoeddus eraill a thrwy'r gweithgarwch masnachol a gynhyrchir gan ein neuaddau, caffis, siopau a Chanolfan y Celfyddydau.





**Ffioedd Dysgu a Chontractau Addysg:** Ffioedd ar gyfer myfyrwyr y DU, UE yn cynnwys y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a chyfanswm y ffioedd a delir gan fyfyrwyr tramor

**Grantiau'r Corff Cyllido:** Grantiau CCAUC
**Grantiau Ymchwil:** Incwm Ymchwil o'r DU a'r UE
**Incwm Arall:** Neuaddau, Arlwyo, y Ganolfan Chwaraeon ac incwm cyffredinol arall

**I ble mae'r arian yn mynd?**

Rydym yn sylweddoli bod ein myfyrwyr, wrth ddewis Aberystwyth, yn ymddiried ynom i ddefnyddio'r arian hwn yn gyfrifol ac mewn ffyrdd fydd yn cynnig profiad addysgiadol rhagorol iddynt i'w paratoi ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae'r ffordd yr ydym yn defnyddio'r arian a dderbyniwn yn cael ei hategu hefyd gan ymrwymiad i gynnig gwerth am arian a buddsoddi mewn datblygiadau fydd o fudd i'n myfyrwyr.

Mae'r siart isod yn dangos i ble mae'r arian a dderbyniwn yn mynd.




**Adrannau Academaidd:** Yr holl gostau academaidd, darparu cymorth academaidd a chefnogi addysg
**Rhedeg y Brifysgol:** Gweinyddiaeth ganolog, cymorth i fyfyrwyr a gwasanaethau sy'n cadw ein Prifysgol i redeg

**Cynnal a Chadw'r Campws:** Costau'r safle ac ystadau, yn cynnwys adeiladau, tir a dibrisiant
**Cymorth Ariannol i fyfyrwyr:** Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau sy'n benodol i Aberystwyth
**Arall:** Llog a chostau cyllid eraill, yn cynnwys llog ar bensiynau

Yn ogystal â'n galluogi i ddarparu cwricwlwm cyfredol a ddysgir gan staff rhagorol, mae eich ffioedd a'r arian yr ydym yn ei dderbyn drwy gyllid ymchwil a ffynonellau eraill yn cyfrannu at y cyfleusterau sy'n eich cefnogi yn ystod eich cyfnod yn Aberystwyth, yn cynnwys:

- Gwasanaethau llyfrgell, llyfrau ac adnoddau ar-lein sy'n aros cyfuwch â'ch gofynion.
- Offer a chyfleusterau TG i gefnogi dysgu, yn cynnwys buddsoddi mewn technoleg ardaloedd dysgu a chipio darlithoedd sy'n gwneud dysgu'n fwy hyblyg ac yn datblygu eich profiad dysgu yn barhaus.
- Gweithio i sicrhau bod ein hystâd yn fwy hygyrch yn ogystal â darparu amgylchedd o ansawdd uchel ichi fyw a dysgu ynddo.
- Gwasanaethau i'ch cefnogi a'ch cynghori pan fydd eu hangen arnoch fwyaf ac i'ch helpu i wneud y gorau o'ch amser yn Aberystwyth. Gwasanaeth gyrfaoedd i'ch helpu i ddod o hyd i yrfa o'ch dewis ac i'ch cefnogi wrth ichi baratoi amdani.
- Cyfleusterau chwaraeon a chymdeithasol.

**Ein Prifysgol**

Yn Aberystwyth rydym yn falch o'n gwaith ymchwil o ansawdd uchel a'r effaith mae'n ei gael ar fywyd go iawn mewn meysydd fel iechyd pobl, diogelwch bwyd a'r frwydr yn erbyn newid hinsawdd. Ariennir y rhan fwyaf o weithgareddau ymchwil drwy grantiau ymchwil ac mae ein myfyrwyr yn elwa o arbenigedd ein hymchwilwyr sy'n sail uniongyrchol i'r cwricwlwm dysgu.

Rydym yn falch hefyd o'n cyfraniad i fywyd a diwylliant Ceredigion a Chymru. Mae'r Brifysgol yn darparu adeilad, cyfleusterau a chymorth ariannol ar gyfer Canolfan y Celfyddydau arobryn Aberystwyth, sef y fwyaf yng Nghymru. Mae'r Brifysgol yn parhau i fuddsoddi mewn dysgu ac adnoddau cyfrwng Cymraeg, gwasanaethau cyfieithu a datblygu ardaloedd ar gyfer byw a chymdeithasu yn y brifysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym wedi ymrwymo i wella'r ystâd trwy wella'n barhaus brofiad byw a dysgu ein holl fyfyrwyr a chyfrannu at eu llwyddiant. Rydym yn cydweithredu â'r myfyrwyr wrth fuddsoddi mewn prif brosiectau cyfalaf. Yn ddiweddar, cwblhawyd ail gam y prif ddiweddariadau yn Llyfrgell Hugh Owen a'r theatrau darlithio gydag ardaloedd astudio wedi'u cynllunio gan ein myfyrwyr. Bydd y neuadd breswyl cyfrwng Cymraeg hanesyddol, Neuadd Pantycelyn, yn ailagor i fyfyrwyr ym mis Medi 2020 gydag ardaloedd astudio a chymdeithasu ochr yn ochr ag ystafelloedd en-suite ar eu newydd wedd yn ogystal â swyddfa ar gyfer UMCA, Undeb Myfyrwyr Cymraeg y Brifysgol.

Mae'r cynlluniau i drawsnewid yr Hen Goleg yn brif ganolfan ddiwylliannol a chreadigol ar gyfer ein myfyrwyr, staff, y gymuned leol ac ymwelwyr â'r ardal yn datblygu'n dda ac yn gatalydd allweddol ar gyfer datblygu ein Prifysgol a'r Dref.

**Ble gallaf ddod o hyd i ragor o wybodaeth?**

Gallwch ddarllen ein Datganiadau Ariannol ar gyfer 2018-19 yma.

Gallwch ddarllen ein Cynlluniau Ffioedd Myfyrwyr a Mynediad, sy'n amlinellu defnyddio canran o'r ffioedd dysgu ar fentrau i ehangu mynediad i Addysg Uwch, cefnogi myfyrwyr a darparu profiad myfyriwr rhagorol yma.